Property Recruiter –
South East Wales and Brecon Beacons

A little bit about us in Wales....

Wales Cottage Holidays, Best of Wales, Abersoch Holiday Homes and Powells Cottage Holidays are four market leading holiday letting brands in Wales and are all part of the largest independent cottage agency in Wales. Established for more than 25 years, we have offices in Abercynan, Abersoch, Cemaes, Newton and Saundersfoot, and offer marketing, sales and property management for more than 1,000 properties throughout Wales.

And we are part of a family too, The Original Cottages Family...

Wales Cottage Holidays, Best of Wales, Abersoch Holiday Homes and Powells Cottage Holidays are four brands of a UK family of over 25 locally managed brands owned by the Original Cottages Company. Being part of this family gives us a very special offering of being both local and national. We really have the best of both worlds, our local teams have local knowledge, and with Original Cottages we have a national audience and refined expertise.

Having our local brands means we can give that local, personal touch to our homeowners and holidaymakers alike. We believe this gives the best of both worlds and is unique in our industry.

We foster universally high standards and take an ethical approach when dealing with our employees. We believe in playing to people's strengths and are proud of our reputation for flexibility and fairness as an employer, providing a professional, innovative and fun place to work. This is reflected in the fact that many of our employees are long-serving and thus very experienced.

We take delight in seeing our employees develop and grow within the business. We are proud to be a true family business with a strong set of values which guide and inform the way we work.

We are;

- Family owned
- Local
- Friendly
- Reliable
- Honest
- Customer focused
- Innovative
- Flexible
- Progressive
- Fun

Job Description - What's the job all about then?

Overview

This is a really exciting job; if you love property, people and working in a fun and ambitious team then read on! This role is an integral part of the recruitment team in Wales, with the opportunity to help shape the future of the business and development of the portfolio – both new and existing.

The ideal candidate

We are looking for a fun, friendly, enthusiastic person with a can-do attitude to join the Property Recruitment Team. You will be confident, motivated and a self-starter with a view of growing our Wales Cottage Holiday and Best of Wales portfolios in South East Wales and Brecon Beacons. A confident personality is imperative as you will often be the first person that our homeowner's contact during their journey from idea to reality. In addition to homeowners you will also be a confident networker, comfortable working existing and new contacts and leads. You will be happy working individually or as part of a team. Attention to detail is vital as is an empathetic manner when liaising with homeowners and it goes without saying that you need to be well organised, with great time management skills. Excellent computer skills, a good standard of written communication and a friendly and helpful telephone manner are all important parts of a fantastic role.

- You will need a flair for property, possibly with current experience in this field, and also some sales experience.
- You will be meeting prospective owners and 'selling' Wales Cottage Holiday and Best of Wales to them, so you will need to be confident and persuasive whilst adapting to individual personalities and customer expectations.
- Our recruiting numbers each year are going from strength to strength and you will be expected to participate towards an annual recruitment target.
- You will also need to be computer literate with good Microsoft Skills, have good admin and telephone skills and enjoy talking to people from all walks of life.
- You will need to be able to communicate both written and verbally in both Welsh and English
- As part of your training you will be shown our TABS booking system.

Responsibilities & Tasks

- Carry out homeowner visits in all areas of the South East Wales and Brecon Beacons dealing with initial enquiries professionally and working with potential homeowners to meet our company standards for holiday lets to ensure properties maximise bookings and reach quality guidelines.
- Contribute to plans for business growth through property recruitment and retention within South East Wales and Brecon Beacons.
- A key representative of South East Wales and Brecon Beacons, developing local relationships and ensuring visibility locally.
- Identify ways to develop new business and opportunities to generate enquiries.

- Work with the Wales marketing team to plan and implement advertising and promotional strategy and activities related to recruiting and retaining properties.
- Seek and continuously develop knowledge and information about competitor activity, pricing and tactics.
- Build a business network and community presence to increase brandawareness.
- Set up properties on the website through TABS, adhering to our current brand processes including relevant knowledge and application of property letting legislation.
- Build relationships with local property developers and estate agents inSouth East Wales and Brecon Beacons.
- Target independent property owners to introduce Wales Cottage Holidays and Best of Wales, coming up with flexible arrangements to gain additional properties for the Wales portfolio.
- Work with the Grading Team to ensure the TOCC grading scheme is implemented and effective for all South East Wales and Brecon Beacons properties.
- Be proactive in suggesting improvements to the recruitment process.
- Be a proactive member of the Wales Recruitment Team, working together to develop and progress recruitment across Wales.

Working Hours

- We offer attractive working conditions and a very strong team working ethos in which people are encouraged to feel part of "the family".
- The hours of work will be 37.50 hours a week working primarily 5 days Monday –Friday with some hours occasionally over weekends and evenings.
- 22 days holiday a year (plus bank holidays) and nobody works on their birthday! The longer you work with us then the better holiday and conditions you receive – we value longevity and loyalty.
- We operate a company contributory pension scheme.
- In a steadily growing company such as this, the career opportunities are there for further advancement into any part of the business – promoting from within being a major part of our business philosophy and values.

Closing Date Friday 8th November 2019

Interested? This is how to apply…

Please send a CV and covering letter (this is important to us) with a little bit about you and why the job appeals to you. This should be addressed for the attention of Jane Grant and sent to us using the contact details below. The closing date is Friday 8th November but don't delay as we encourage early applications.

First interviews week commencing 18th November 2019.

We look forward to hearing from you soon.

Email Address – j.grant@abersochholidayhomes.co.uk

Telephone Number – 01758 740992.

Office Address – Wales Cottage Holidays, Bear House, Bear Lanes, Newtown, Powys, SY16 2QZ

Recriwtiwr Eiddo –
De Ddwyrain Cymru a Bannau Brycheiniog

Ychydig amdanon ni yng Nghymru...

Pedwar brand blaengar ar gyfer gosod eiddo gwyliau yng Nghymru yw Y Gorau o Gymru, Wales Cottage Holidays, Abersoch Holiday Homes a Powells Cottage Holidays, sydd yn rhan o'r asiantaeth fythynnod annibynnol fwyaf yng Nghymru. Fe'n sefydlwyd ni dros chwarter canrif yn ôl, ac mae gennym swyddfeydd yn Abercynon, Abersoch, Cemaes, Drenewydd a Saundersfoot. Rydyn ni'n cynnig gwasanaeth marchnata, gwerthu a rheoli eiddo i dros 1,000 o eiddo ledled Cymru.

Rydyn ni'n rhan o deulu hefyd, sef The Original Cottages Family...

Mae Y Gorau o Gymru, Wales Cottage Holidays, Abersoch Holiday Homes a Powells Cottage Holidays yn bedwar brand sy'n rhan o deulu o dros 25 brand ledled Prydain a gaiff eu rheoli'n lleol, ac The Original Cottage Company sy'n berchen arnynt. Mae bod yn rhan o'r teulu hwn yn golygu ein bod ni'n cynnig gwasanaeth arbennig iawn, drwy fod yn lleol ac yn genedlaethol. Rydyn ni'n cynnig y gorau o ddau fyd. Mae gan ein timau lleol ddealltwriaeth leol ac maen nhw'n gallu cynnig gwasanaeth lleol a phersonol i berchnogion eiddo ac ymwelwyr fel ei gilydd, a thrwy Original Cottages mae cynulleidfa genedlaethol ac arbenigedd eang gennym.

Rydyn ni'n glynu at safonau uchel drwyddi draw, ac yn defnyddio dull moesegol wrth ymdrin â'n gweithwyr. Rydyn ni'n credu mewn manteisio ar gryfderau pobl, ac yn falch o'n henw da am hyblygrwydd a thegwch fel cyflogwr, gan gynnig lle proffesiynol, arloesol a hwyliog i weithio ynddo. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y ffaith bod llawer o'n gweithwyr wedi bod gyda ni ers cyfnod hir, ac felly maen nhw'n brofiadol iawn.

Rydyn ni'n ymfalchïo wrth weld ein gweithwyr yn datblygu ac yn tyfu yn y busnes. Rydyn ni'n falch o fod yn fusnes teuluol go iawn, gyda chyfres o werthoedd cryf sy'n arwain ac yn llywio'r ffordd rydyn ni'n gweithio.

Rydyn ni;

- Yn fusnes teuluol
- Yn lleol
- Yn gyfeillgar
- Yn ddibynadwy
- Yn onest
- Yn canolbwyntio ar y cwsmer
- Yn arloesol
- Yn hyblyg
- Yn flaengar
- Yn hwyl

Swydd Ddisgrifiad - Felly beth yw'r swydd? Trosolwg

Mae hon yn swydd gyffrous iawn; os ydych chi'n hoff o eiddo, pobl, a gweithio mewn tîm mentrus llawn hwyl, yna darllenwch ymlaen! Mae'r swydd hon yn rhan hanfodol o dîm recriwtio Cymru, lle mae cyfle i helpu i lywio dyfodol y busnes a datblygu'r portffolio – yn cynnwys eiddo newydd a phresennol.

Yr ymgeisydd delfrydol

Rydyn ni'n chwilio am unigolyn hwyliog, cyfeillgar a brwdfrydig sydd ag agwedd gadarnhaol i ymuno â'r Tîm Recriwtio Eiddo. Byddwch chi'n hyderus, awyddus ac yn cymell eich hun, gyda bwriad i dyfu portffolio Y Gorau o Gymru a Wales Cottage Holiday yn Ne Ddwyrain Cymru a Bannau Brycheiniog. Mae personoliaeth hyderus yn hanfodol, gan mai chi fydd y person cyntaf yn aml y bydd ein perchnogion eiddo yn cysylltu â nhw yn ystod eu taith o syniad i realiti. Yn ogystal â pherchnogion eiddo, byddwch hefyd yn rhwydweithiwr hyderus, ac yn gyfforddus yn gweithio gyda chysylltiadau a chyfleoedd newydd a phresennol. Byddwch yn fodlon yn gweithio'n unigol neu fel rhan o dîm. Mae llygad craff yn hanfodol, ynghyd ag agwedd empathetig wrth gydweithio gyda pherchnogion eiddo, ac wrth gwrs, bydd angen i chi fod yn drefnus, gyda sgiliau rheoli amser gwych. Mae sgiliau cyfrifiadurol ardderchog, cyfathrebu ysgrifenedig o safon, ac agwedd gyfeillgar a pharod i helpu ar y ffôn, oll yn rhannau pwysig o'r swydd wych hon.

- Bydd angen greddf am eiddo, o bosib gyda phrofiad cyfredol yn y maes, a rhywfaint o brofiad gwerthu hefyd.
- Byddwch yn cwrdd â darpar berchnogion ac yn 'gwerthu' Y Gorau o Gymru a Wales Cottage Holiday iddyn nhw, felly bydd angen i chi fod yn hyderus ac â'r gallu i ddwyn perswâd, gan addasu i bersonoliaethau unigol a disgwyliadau cwsmeriaid.
- Mae ein niferoedd recriwtio yn tyfu o flwyddyn i flwyddyn, a bydd disgwyl i chi weithio tuag at darged recriwtio blynyddol.
- Bydd angen i chi hefyd fod yn fedrus ar y cyfrifiadur, gyda sgiliau Microsoft da, sgiliau gweinyddol a ffôn da, ac yn mwynhau siarad gyda phobl o bob math o gefndiroedd.
- Bydd angen i chi allu cyfathrebu yn ysgrifenedig ac ar lafar yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Fel rhan o'ch hyfforddiant, byddwch yn dysgu am TABS, sef ein system archebu.

Cyfrifoldebau a Thasgau

- Cynnal ymweliadau â pherchnogion eiddo ym mhob ardal o Dde Ddwyrain Cymru a Bannau Brycheiniog, gan ymdrin ag ymholiadau cychwynnol yn broffesiynol, a gan weithio gyda darpar berchnogion eiddo i gyrraedd safonau ein cwmni ar gyfer eiddo gosod, i sicrhau bod ein heiddo yn cael y nifer mwyaf posib o archebion ac yn bodloni canllawiau ansawdd.
- Cyfrannu at gynlluniau i dyfu'r busnes, drwy recriwtio a chadw eiddo yn Ne Ddwyrain Cymru a Bannau Brycheiniog.
- Cynrychiolydd allweddol i Dde Ddwyrain Cymru a Bannau Brycheiniog, yn datblygu perthnasau lleol a sicrhau ein bod yn weladwy yn yr ardal.
- Nodi ffyrdd o ddatblygu busnes newydd a chyfleoedd i annog ymholiadau.
- Gweithio gyda thîm marchnata Cymru i gynllunio a gweithredu strategaeth hysbysebu a hyrwyddo, a gweithgareddau'n ymwneud â recriwtio a chadw eiddo.

- Cynyddu dealltwriaeth a gwybodaeth am weithgarwch, prisiau a thactegau cystadleuwyr, a pharhau i ddatblygu hyn.
- Adeiladu rhwydwaith busnes a phresenoldeb yn y gymuned er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o'r brand.
- Gosod eiddo ar y wefan, trwy TABS, gan lynu at ein prosesau brand presennol, yn cynnwys gwybodaeth berthnasol a gweithredu deddfwriaeth gosod eiddo.
- Adeiladu perthnasau gyda datblygwyr eiddo lleol ac asiantaethau tai yn Ne Ddwyrain Cymru a Bannau Brycheiniog.
- Targedu perchnogion eiddo annibynnol i gyflwyno Y Gorau o Gymru a Wales Cottage Holidays, gan lunio trefniadau hyblyg i gael rhagor o eiddo i bortffolio Cymru.
- Gweithio gyda'r Tîm Graddio i sicrhau y caiff cynllun graddio The Original Cottage Company ei weithredu, a'i fod ar waith mewn perthynas â phob eiddo.
- Bod yn rhagweithiol wrth awgrymu gwelliannau i'r broses recriwtio.
- Bod yn aelod rhagweithiol o Dîm Recriwtio Cymru, gan gydweithio i ddatblygu recriwtio ledled Cymru.

Oriau Gwaith

- Rydyn ni'n cynnig amodau gwaith deniadol, ac mae ethos gweithio tîm cryf iawn gennym, lle caiff pobl eu hannog i deimlo'n rhan o'r "teulu".
- 37.5 awr yr wythnos fydd yr oriau gwaith, gan weithio pum diwrnod rhwng dydd Llun a dydd Gwener yn bennaf, gyda rhai oriau ar y penwythnos neu gyda'r nos yn achlysurol.
- 22 diwrnod o wyliau'r flwyddyn (ynghyd â gwyliau banc) - a does neb yn gweithio ar eu pen-blwydd! Po hiraf fyddwch chi'n gweithio gyda ni, y gorau yw'r gwyliau a'r amodau fyddwch chi'n eu cael – rydyn ni'n gwerthfawrogi ffyddlondeb a theyrngarwch.
- Rydyn ni'n gweithredu cynllun pensiwn cyfrannol cwmni.
- Mewn cwmni sy'n tyfu'n gyson fel hwn, mae cyfleoedd gyrfaol ar gael er mwyn datblygu i unrhyw ran o'r busnes – ac mae dyrchafu'n fewnol yn rhan bwysig o'n hathroniaeth a'n gwerthoedd busnes.

Dyddiad Cau Dydd Gwener 8ain Tachwedd 2019

Diddordeb? Dyma sut i wneud cais...

Anfonwch CV a llythyr eglurhaol (mae hyn yn bwysig i ni) yn sôn ychydig amdanoch chi a pham mae'r swydd yn apelio atoch. Dylid ei gyfeirio at sylw Jane Grant, a'i anfon aton ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod. Dydd Gwener 25ain Hydref yw'r dyddiad cau, ond peidiwch ag oedi – rydyn ni'n annog ceisiadau cynnar.

Cynhelir y cyfweliadau cyntaf yn ystod yr wythnos yn dechrau 18ain Tachwedd 2019.

Edrychwn ymlaen at glywed gennych yn fuan.

Cyfeiriad E-bost – j.grant@abersochholidayhomes.co.uk

Rhif Ffôn – 01758 740992.

Cyfeiriad y Swyddfa – Wales Cottage Holidays, Bear House, Bear Lanes, Y Drenewydd, Powys, SY16 2QZ